Eisteddfod Llandyrnog 2026

Cynhaliwyd Eisteddfod Llandyrnog ar nos Wener, Hydref 16eg a bu cystadlu brwd am 6 awr! Y beirniad eleni oedd Cerdd - Ioan Rees, Llefaru a Llên – Rhian Iorwerth, celf – Charlotte Lloyd a'r cyfeilydd oedd Ann Edwards, ac roedd bob un ohonynt yn canmol safon uchel y cystadlu. Derbyniwyd dros 400 o eitemau i'w beirniadu yn yr adran gelf a bron i 200 yn yr adran lenyddiaeth!

Mae'r eisteddfod yn ddyledus iawn i'r ysgolion lleol am eu cefnogaeth bob blwyddyn yn yr adran gwaith cartref ac ar y llwyfan.

Enillydd y Gadair eleni oedd Sophia Jones o Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Llongyfarchiadau iddi hithau.